# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR HYDREF 3ydd, 2023

## Yn NEUADD BENTREF FFOSTRASOL am 7.30 y.h.

**Yn bresennol** Cyng. Ceri Jones (cadeirydd)
Cyng. Sharon Thomas
Cyng. Carol Davies
Cyng. Rob Jones
Cyng. Teifi Evans
Cyng.Maldwyn Lewis
Cyng. Sian Williams
Cyng. Mark Davies
Cyng. Emyr Jones

Clerc Rhian Jones

**1 . Ymddiheuriadau**

- Cyng. Roger Davies.
- Nid oedd y Cyng. Llyr Evans yn bresennol, ac nid oedd wedi anfon Ymddiheuriadau.

**2. Datgan Diddordeb - DIM**

**3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

- **3.1** - Cadarnhaodd y Cyng. Maldwyn Lewis fod y cofnodion yn gywir ac eiliwyd gan y Cyng.Sharon Thomas.

**4. Materion yn Codi**

- **4.1 –** Mandate, mae'r Cyng. Sharon Thomas yn dal i ddisgwyl ymateb wrth y banc.
- **4.2** – Arhosfan bws Coedybryn – gobeithio caiff y gwaith eu wneud yn ystod yr wythnos nesaf.
- **4.3 –** Awdit – mae'r Clerc yn y broses o gasglu gwybodaeth am ad-daliad VAT.
- **4.4 –** Praesept – i'w drafod yng nghyfarfod mis Tachwedd, ond angen i'r Clerc anfon copi o un llynedd i bawb.
- **4.5** – Cyflogau gweithwyr. Y Contract gan y Cyng.Ceri Jones ac angen i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyfrifydd i newid manylion y cyflogf a'r oriau.
- **4.6** – Parish Online – neb yn ymwybodol eu bod wedi cael eu talu o'r blaen, felly wedi penderfynnu dileu y siec a peidio a thalu y dderbyneb.
- **4.7 – Materion Ardal –**
  Bocsys De-fib newydd wedi eu gosod yng Nghoedybryn, Croeslan a Ffostrasol, er fod lleoliad Ffostrasol wedi newid ychydig. Mae angen gosod un eto yn Rhydlewis. Mae hefyd angen edrych ar ddyddiadau y padiau ar y peiriannau ym mhob pentref oherwydd mae bron yn amser newid rhai Ffostrasol a Brongest. Y Cyng. Sian Williams sydd yng ngofal bocs Maesllyn. Hefyd o fewn y bocsys newydd mae goleadau a gwresogydd ond nid ydynt wedi cysylltu gyda trydan. Efallai byddai yn syniad eu tynnu allan rhag iddynt gael eu dwyn. Wedi penderfynnu cadw yr hen focsys rhag ofn bydd eu angen rhywle yn y dyfodol.

  Pleser oedd gweld y potaiu blodau dros yr haf, ac mae wedi dod i'r golwg ble ddiflannodd blodau o bot Brongest. Cynigiodd y Cyng.Sian Williams gasglu bylbiau

Cennin Pedr o Trefhedyn a mynd ati i'w plannu dros hanner tymor, er mwyn cael cadw'r potiau i edrych yn lliwgar dros y Gwanwyn.

Llanwyd y twll oedd yn y ffordd yn Rhydlewis o fewn tridiau.

**5. Materioin y Cynghorydd Sir**

- **5.1 -** Bwcabys – mae'n debyg fod Grant Rhaglen Datblygu cefn gwlad wedi dod i ben ym mis Mehefin, a bu Llywodraeth Cymru yn ariannu'r cynllun hyd yma, ond mae'r gwasanaeth yn dod i ben ddiwedd mis Hydref. Bydd hyn yn effeithio ar bentrefi Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Mae hwn yn wasanaeth sydd wedi bod yn rhedeg ers 14 o flynyddoedd – gwasanaeth da a ddefnyddiwyd yn gyson gan llawer o drigolion yr ardal.
- **5.2** – 20mya – mae sawl ardal gyfagos wedi derbyn tipyn o ddifrod yn ddiweddar – i arwyddion 20mya. Nid yw yn broblem yn ardal Troedyraur. Yr awdurdod lleol fydd yn gorfod talu am y difrod a grewyd ac mae'n achos mae'r heddlu yn cymryd o ddifri.
- **5.3 –** Mae Ymgynghoriad ail gartrefi a chartrefi gwag hir-dymor ar lein ac mae'n bwysig i bobl roi mewnbwn. Mae modd gwneud hyn trwy fynd ar wefan y cyngor. Mae pawb sydd ag ail gartrefi wedi derbyn llythyron eisioes. Mae gwybodaeth am hyn ar ein tudalen Facebook hefyd.
- **5.4 –** Mannau trydanu ceir trydan – mae llefydd ar gael eisioes yn Aberteifi, Aberaeron, Llandysul, Llanybydder a Chastell Newydd Emlyn.
- **5.5 –** Mae Sioe Carwyn James yn Theatr Felinfach ar Hydref 10fed.
- **5.6 -** Mae son am newid cyfrwng Iaith rhai o Ysgolion bach y sir, er mwyn eu gwneud yn uniaith Gymraeg. Hefyd gostwng oed cychwyn yr ysgol i 3 oed. Ysgol Cei Newydd yw'r agosaf atom yma sydd mewn trafodaeth. Dyddiad cau yr Ymgynghoriad yma yw Hydref 30ain.

**6. Gohebiaeth**

- **6.1 –**Mae cwrs ar-lein ar Hydref 10fed am " Merched mewn Arweinyddiaeth ".
- **6.2 –** Concrid Awyredig – holiadur wedi dod, ond nid yw'n effeithio ni yma yn Troedyraur.
- **6.3** – Holoiadur i lanw wrth Ambiwlans Awyr Cymru.
- **6.4 –** Comisiwn Befan - Barn am wasanaeth Iechyd a gofal – Tachwedd 7fed.
- **6.5 –** Mae adolygiad o ddosbarthiadau etholiadol, mannau pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio ar gyfer ardal Cyngor Sir Ceredigion ar y wefan.

**7. Cynllunio**

- **7.1** - Maesyffynnon, Brongest
  Sied i ddal peiriannau, gwair a cheffylau. Nid oes gennym wrthwynebiad, ond iddynt ddilyn y canllawiau a'i defnyddio at y pwrpas a nodwyd.

**8. Cyllid**

- **8.1** - Cytunwyd i dalu'r sieciau ac arwyddwyd hwy gan y Cyng. Mark Davies a 'r Cyng. Emyr Jones. Mis yma mae'r Cyng Maldwyn Lewis yn derbyn ei siec ef am y bocsys De-fib oedd ar daliadau mis Medi - ac arwyddwyd hi gan y Cyng. Sharon Thomas a'r Cyng. Emyr Jones.

| | | |
|---|---|---|
| HMRC (mis 6) | £43.40 | 001725 |
| Rhian Jones taliadau'r Clerc (mis 6) | £173.80 | 001726 |

| | | |
|---|---|---|
| Rhian Jones – cyfieithu | £36.18 | 001727 |

**9. Materion Ardal**

- **9.1** – Bwcabys – pawb yn gytun fod hwn yn wasanaeth buddiol iawn yn y gymuned. Angen i'r Clerc anfon llythyr at Ben Lake, Elin Jones a Keith Henson yn achwyn o'r ardal am y golled fydd diweddu'r gwasanaeth yma yn gael ar yr ardal. Mae llawer yn dibynnu arno mewn ardal mor wledig oherwydd nid oes trafnidiaeth gyhoeddus arall ar gael yma. Mae llawer ddim yn gyrru a rhai a phlant ifanc ac hefyd dyma unig ffordd llawer o hennoed i deithio o fan i fan.
- **9.2** –COEDYBRYN- aeth llawer o frigau'r coed ger y sgwar dros y penwythnos. Cynhelir bore coffi Mc Millan yn y Neuadd Dydd Sadwrn Hydref 7fed.
- **9.3** – PENRHIWPAL – Mae goleadau'r stryd ger y blwch ffon yn fflachio.
- **9.4** – FFOSTRASOL – Rhedodd Elain Davies ras hanner Marathon Caerdydd dydd Sul diwethaf. Llongyfarchiadau mawr iddi.
  Llongyfarchiadau i'r Cyng. Mark Davies ar gyflawni Pavestone Rali yn ddiweddar a chodi swm anhygoel o £212,000 tuag at bedwar achos teilwng iawn, sef – British Heart Foundation, Rainy Day, Crash a Children's Variety.
- **9.5** – FFOSTRASOL – mae dal con dros y twll yng nghanol y palmant rhwng Ffostrasol a Bwlchygroes. Mae'n beryglus oherwydd ei leoliad. Y gobaith yw cysylltu a'r gwasanaeth Dwr Cymru oherwydd hyn.
- **9.6** – PENRHIWPAL – Cynhaliwyd te prynhawn ac arddangosfa flodau yn The Flower Meadow i godi arian at Sioe'r Cardis, a braf oedd gweld dwy Famgu y ddau Gareth sydd wedi rhoi ein hardal ar y map yno. Llongyfarchiadau i ddau Gareth o'r ardal sydd wedi codi statws ein cymuned trwy chwarae rygbi dros Gymru – Gareth Thomas a Gareth Davies. Arbennig bois.
- 

**10. Cyfarfod Nesaf**

- **10.1** –Cynhelir cyfarfod cyllid am 7:00 o'r gloch ac yna y cyfarfod nesaf yn Neuadd bentraf Coedybryn am 7:30 ar Dachwedd y 7fed
- **10.2** – Gan nad oedd dim ymhellach i drafod, tynnodd y Cadeirydd y cyfarfod i ben am 9:10 o'r gloch.

Cadarnhawyd fod y cofnodion yma yn gywir.

Llofnod ______________________ Dyddiad ______________________